Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

# Hyfforddiant Diogelwch

3 Ebrill 2017

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 7 Mawrth. Nodwyd y cais llawn yn atodiad y llythyr hwn.

1) *Nifer y contractau perthnasol lle cyhoeddwyd cais i dendro yn ystod y cyfnod hwn.*

Nid oes ceisiadau ffurfiol i dendro wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer y cyfnod rhwng mis Chwefror 2014, a Chwefror 2017, yn y gwasanaethau a restrir yn eich cais.

Fodd bynnag, cymerwyd camau i ganfod cyflenwr ar gyfer hyfforddiant diogelwch i Aelodau'r Cynulliad, eu staff, a staff y Comisiwn, a dyma rydym wedi seilio eich cais arno. Mae ein rheolau caffael mewnol yn nodi, oherwydd bod gwerth y contract yn isel (rhwng £5,000 a £25,000 (heb gynnwys TAW), bod y darpar gyflenwyr wedi derbyn gwahoddiad i gynnig dyfynbris.

2) *Dyddiad cychwyn a hyd pob contract/fframwaith.*

Mae'r contract ar gyfer darparu hyfforddiant diogelwch i Aelodau'r Cynulliad, eu staff, a staff y Comisiwn yn rhedeg o fis Ionawr 2017, i fis Ebrill 2018.

3) *Gwerth pob contract unigol a nifer y contractau a aeth allan i dendr yn ystod cyfnod hwn.*

Gweler yr ateb i gwestiwn 1. Dyfarnwyd un contract â gwerth o hyd at £25,000.

4) *Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer pob tendr a'r nifer o gyflenwyr a ddewiswyd eu cynnwys ym mhob contract.*

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

Cafodd pedwar dyfynbris eu hystyried, ac roedd un cyflenwr yn llwyddiannus.

5) *Y meini prawf a benderfynwyd ymlaen llaw ar gyfer pob contract yn ystod y cyfnod hwn.*

Y meini prawf a benderfynwyd ymlaen llaw oedd:

- Profiad y staff a fydd yn ymgymryd â'r gwaith, a dealltwriaeth o'r amgylchedd gwleidyddol (40 marc);
- Datganiad am y dull o ddarparu'r hyfforddiant arfaethedig (35 marc);
- Manylion cost, yn seiliedig ar y gwir gost o ddarparu'r hyfforddiant (25 marc)

6) *Gwerthusiad o'r cynigion:*
   a. *Strwythurau ffioedd y ceisiadau.*
   b. *Y rhesymau dros ddewis yr ymgeisydd llwyddiannus yn ôl y meini prawf a benderfynwyd ymlaen llaw.*
   c. *Gwerthuso'r cynnig - cymharu ymgeiswyr llwyddiannus â ymgeiswyr nad oeddynt yn llwyddiannus, gan gynnwys y cynigion gorau a therfynol a chymharu'r meini prawf marcio.*

Gweler y daenlen Excel sydd ynghlwm.

FoI761_Evaluation_Matrix.xlsx

7) *Unrhyw wrthdaro buddiannau a ddatganwyd ar gyfer pob contract a aeth allan i dendr.*

Nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi yn ymwneud â'r cais hwn.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae’r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Atodiad**

*Er mwyn eglurder, mae'r cais hwn yn ymwneud â'r cyfnod o amser a nodir isod ac ar gyfer unrhyw gontractau a fyddai'n dod o dan y pennawd uchod lle mae'r gwasanaethau a ddarperir yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:*

- *Defnyddio offer diogelu personol.*
- *Delio â sefyllfaoedd o wrthdaro a thechnegau rheoli gwrthdaro.*
- *Hyfforddiant diogelwch personol ac unigol.*
- *Adrodd a gweithrediadau diogelwch staff a'r cyhoedd a meddalwedd cysylltiedig.*
- *Hyfforddiant iechyd a diogelwch mewn materion deddfwriaethol, statudol a chyfreithiol.*
- *Hyfforddiant mewn cysylltu ag asiantaethau gorfodi'r gyfraith a hyfforddiant rhyngweithio.*

*Y wybodaeth ofynnol ac angenrheidiol ar gyfer y cyfnod a nodir yw:*
*Chwefror 2014 - Chwefror 2017*

1) *Nifer y contractau perthnasol lle cyhoeddwyd cais i dendro yn ystod y cyfnod hwn.*
2) *Dyddiad cychwyn a hyd pob contract/fframwaith.*
3) *Gwerth pob contract unigol a nifer y contractau a aeth allan i dendr yn ystod cyfnod hwn.*
4) *Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd ar gyfer pob tendr a'r nifer o gyflenwyr a ddewiswyd eu cynnwys ym mhob contract.*
5) *Y meini prawf a benderfynwyd ymlaen llaw ar gyfer pob contract yn ystod y cyfnod hwn.*
6) *Gwerthusiad o'r cynigion:*
   d. *Strwythurau ffioedd y ceisiadau.*
   e. *Y rhesymau dros ddewis yr ymgeisydd llwyddiannus yn ôl y meini prawf a benderfynwyd ymlaen llaw.*
   f. *Gwerthuso'r cynnig - cymharu ymgeiswyr llwyddiannus â ymgeiswyr nad oeddynt yn llwyddiannus, gan gynnwys y cynigion gorau a therfynol a chymharu'r meini prawf marcio.*
7) *Unrhyw wrthdaro buddiannau a ddatganwyd ar gyfer pob contract a aeth allan i dendr.*